

Polisi Preifatrwydd Papur Bro Clonc

Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol (GDPR) 2018.

1.0 Cyflwyniad

Daeth Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) i rym ar 25 Mai 2018, gan ddisodli'r Ddeddf Diogelu Data (1998).

Yn unol â thelerau'r GDPR newydd, mae angen hysbysiad preifatrwydd i esbonio i'r cyhoedd pa ddata personol sy'n cael ei gadw amdanynt, sut y caiff ei gasglu, ei brosesu a phwy sydd â mynediad iddo.

Mae angen i bob sefydliad sy'n casglu data am bobl gydymffurfio â deddfwriaeth Ewropeaidd GDPR a bydd angen parhau i gydymffurfio a hyn unwaith y bydd y D.U. yn gadael yr U.E.

2.0 Swyddog Rheoli Data a Diogelu Data

Enw Rheolydd Data	Papur Bro Clonc
Swyddog Rheoli Data	Dylan Lewis
Manylion Cyswllt	Tycerrig Cwmann LLANBEDR PONT STEFFAN SA48 8ET 07794741011 cadeirydd@clonc.co.uk www.clonc.co.uk

3.1 Sut yr ydym yn casglu eich data

Rydym yn casglu eich data pan fyddwch yn rhoi'r wybodaeth bersonol angenrheidiol i ni yn wirfoddol.

3.2 Pa ddata yr ydym yn ei gasglu

Data a gesglir	Enw(au) Cyfeiriad Rhif(au) ffôn Cyfeiriad epost	Os ydych yn aelod o Glwb Clonc. Os ydych yn tanysgrifio i Clonc. Os ydych yn cyfrannu i Clonc yn gyson. Os ydych yn cystadlu mewn cystadlaethau fel Lincyn Loncyn, Swdocw, ayb.
----------------	--	--

Nid ydym yn cadw unrhyw ddata sensitif o gwbl.

3.3 Pwy sydd â mynediad i'ch data

Dim ond Cadeirydd, Ysgrifennydd, Trysorydd a Golygyddion Clonc sy'n wirfoddolwyr sydd â mynediad at eich data. Nid oes gan yr holl wirfoddolwyr Clonc fynediad at eich data.

Rydym bob amser yn ymdrin â'ch data personol mewn ffordd sy'n gyson â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Byddwn hefyd yn cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu eich data personol a storir mewn ffeiliau papur ac ar ein system electronig.

3.4 Hyfforddiant

Darparwyd hyfforddiant GDPR i wirfoddolwyr Papur Bro Clonc ym mis Mai 2018, a diweddarir gwirfoddolwyr am faterion GDPR yn y cyfarfod blynyddol bob blwyddyn.

3.4 Sut yr ydym yn defnyddio eich data

Sut y defnyddir y data	Anfon nodyn atgoffa am aelodaeth Clwb Clonc. Anfon nodyn atgoffa am daliad tanysgrifio. Anfon nodyn atgoffa am ddyddiadau allweddol cyflwyno newyddion. Cyhoeddi enw ac enw pentref/tref yr enillydd/cystadleuwyr mewn rhifyn Papur Bro Clonc.
------------------------	---

3.5 Rhannu'ch data

Byddwn yn cadw gwybodaeth amdanoch yn gyfrinachol a ni fyddwn yn datgelu unrhyw wybodaeth gyda thrydydd parti.

Cyhoeddir enw ac enw pentref/tref enillwyr Lincyn Loncyn a Chlwb Clonc yn unig, ynghyd ag enwau ac enwau pentrefi/trefi enillwyr a chystadleuwyr Swdocw yn fisol ym Mhapur Bro Clonc.

3.6 Pa mor hir rydym yn cadw'ch data

Byddwn yn cadw'ch cofnodion yn electronig cyn belled â'ch bod yn dymuno parhau i ymaelodi / tanysgrifio / cyfrannu. Adolygir y cofnodion electronig yn flynyddol. Diddymir negeseuon ebost bob mis.

Pan fyddwch chi'n gorffen ymaelodi / tanysgrifio / cyfrannu, diddymir eich data.

Byddwn yn cadw cofnodion papur o gystadleuwyr Lincyn Loncyn a Swdocw am fis yn unig.

3.7 Lleoliad eich data

Mae eich data wedi'i storio'n ddiogel a'i leoli ar ein systemau cyfrifiadurol, sy'n cael eu diogeli gan feddalwedd gwrth firws cydnabyddedig a chyfrinair.

Pan fo'r angen, rydym hefyd yn storio copïau papur o'ch cofnodion. Cedwir y cofnodion hyn mewn lleoliad diogel sy'n dilyn canllawiau deddfwriaethol perthnasol.

4.0 Cyhoeddi data yn y Papur Bro ac ar Wefan Clonc360

4.1 Cystadlaethau

Gofynnir am ganiatad cystadleuwyr i gyhoeddi eu manylion ym Mhapur Bro Clonc. Gofynnir am ganiatad rhieni i gyhoeddi manylion eu plant ym Mhapur Bro Clonc.

4.2 Datganiad

Gofynnir i ysgolion, sefydliadau a chymdeithasau i gyflwyno'r datganiad canlynol wrth gyflwyno newyddion a lluniau i'w cyhoeddi ym Mhapur Bro Clonc ac ar wefan Clonc360:

Rydym yn datgan ein bod wedi sicrhau caniatâd rhieni neu warcheidwaid pob plentyn dan 13 a gynhwysir yn yr adroddiad / lluniau atodedig ar gyfer eu cyhoeddi ym Mhapur Bro Clonc, yn ogystal â chaniatâd pob unigolyn dros 13 a gynhwysir

4.3 Newyddiaduraeth

Arwahan i hynny, ymdrinir â phopeth a ddaw i law'r golygydd fel eitemau newyddiadurol ac fe'u cyhoeddir ym Mhapur Bro Clonc ac ar wefan Clonc360 er mwyn cyflawni'r amcanion canlynol:

- Hybu Cymreictod a sicrhau twf yn y nifer o bobl sy'n darllen Cymraeg.

- Sicrhau bod y papur 'yn gyfrwng i'n cael i adnabod ein bro a'n pobl yn well.'

- 'A bod y papur yn sbardun i hybu gweithgareddau cymdeithasol o bob math.

5.0 Yr Hawl i gael eich hysbysu

Mae'r Polisi Preifatrwydd hwn yn eich hysbysu o'ch hawliau. Gweler y fersiwn ddiweddaraf ar Wefan Papur Bro Clonc. Bydd fersiynau newydd yn cael eu diweddarau ar-lein ac ar gael ar gais.

5.1 Hawl i Fynediad i'ch Data

Mae GDPR 2018 yn rhoi'r hawl i chi gael mynediad at ddata personol penodol yr ydym yn ei ddal amdanoch chi. Cyfeirir at hyn fel cais mynediad goddrych. Byddwn yn ymateb yn brydlon ac o fewn o leiaf **un mis calendr** o'r dyddiad derbyn y cais a'r holl wybodaeth angenrheidiol yn ysgrifenedig oddi wrthyh.

5.2 Yr Hawl i Gywiro

Os ystyrir yn briodol, gall y cyhoedd wneud cofnod ôl-weithredol os oes gennych bryderon ynghylch cywirdeb eich cofnod.

Bydd gennych hefyd yr hawl i gael data personol anghyflawn wedi'i gwblhau, os oes angen, trwy ddarparu datganiad wedi'i lofnodi a'i ddyddio. Byddwn yn ymateb i'r cais i gywiriad o fewn o leiaf **un mis calendr**.

5.3 Yr hawl i ddileu

Mae gennych yr hawl i ofyn am ddileu gwybodaeth bersonol yn ymwneud â chi **os nad yw yn berthnasol mwyach**.

5.0 Cwestiynau, Ymholiadau a Chwynion

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau nad yw'r Polisi Preifatrwydd hwn wedi mynd i'r afael â hwy, neu os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch a sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth bersonol sydd gennym, ysgrifennwch at:

Cadeirydd Papur Bro Clonc
Tycerrig
Cwmann
Llanbedr Pont Steffan
SA48 8ET

Mai 2019